BWRDD YR IAITH GYMRAEG • WELSH LANGUAGE BOARD

07/10/2009

Annwyl Gyfaill

YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS: 'RECRIWTIO A'R IAITH GYMRAEG'

Ysgrifennaf atoch er mwyn gofyn eich barn am y ddogfen gyngor **Recriwtio a'r Iaith Gymraeg** sy'n rhoi cyngor i gyrff cyhoeddus ddatblygu gweithlu dwyieithog fel y gallant ddarparu gwasanaethau Cymraeg da i'r cyhoedd a chyfathrebu â hwy yn llwyddiannus a chynnal eu busnes dydd i ddydd yn Gymraeg neu Saesneg.

Mae'n gyfrifoldeb ar bob sefydliad cyhoeddus sydd â chynllun iaith Gymraeg i weithredu mesurau staffio er mwyn darparu mwy a gwell gwasanaethau Cymraeg i'r cyhoedd. Bydd dilyn y cyngor hwn yn sicrhau bod hynny'n digwydd yn gyson ac i safon uchel.

Mae'r cyngor hwn yn ymdrin ag egwyddorion a'r prif nodweddion sy'n berthnasol i faterion cyflogaeth a'r iaith Gymraeg. Drwy hynny mae'n galluogi sefydliadau i fabwysiadu polisïau effeithiol; yn gymorth i wneud y gorau o amrywiol sgiliau iaith gweithwyr a'u datblygu ymhellach ac yn galluogi pawb i wybod beth sy'n arfer da mewn perthynas â iaith a chyflogaeth.

Mae'r ddogfen wedi ei hanelu at benaethiaid adnoddau dynol, swyddogion datblygu a hyfforddi corfforaethol, swyddogion iaith Gymraeg, rheolwyr sydd â chyfrifoldeb dros recriwtio a dethol neu gynllunio gwasanaethau, ac uwch swyddogion. Byddwn yn ddiolchgar petaech yn sicrhau bod yr unigolion perthnasol o fewn eich sefydliad yn cael y cyfle i ymateb i'r ddogfen hon. Dylid ystyried y ddogfen hon law yn llaw gyda'r ddogfen 'Canllawiau ar Gyfer Trefnu Hyfforddiant Iaith Gymraeg yn y Gweithle' a gyhoeddwyd ar y cyd rhwng Bwrdd yr Iaith Gymraeg a Llywodraeth Cynulliad Cymru (2009), ceir ynddo gyngor a gwybodaeth ar sefydlu a gweithredu rhaglen hyfforddiant iaith Gymraeg effeithiol ar gyfer dysgwyr o bob lefel.

Bwrdd yr Iaith Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5/7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT
post@bwrdd-yr-iaith.org.uk
www.bwrdd-yr-iaith.org.uk

Welsh Language Board
Market Chambers
5/7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT
post@welsh-language-board.org.uk
www.welsh-language-board.org.uk

T +44 (0)29 2087 8000
Ff +44 (0)29 2087 8001
Cadeirydd_Chair **Meri Huws**
Prif Weithredwr_Chief Executive
Meirion Prys Jones
Swyddfeydd eraill_Other offices
Caernarfon, Caerfyrddin_Carmarthen

Noddir gan
Lywodraeth Cynulliad Cymru
Sponsored by
Welsh Assembly Government

BWRDD YR IAITH GYMRAEG • WELSH LANGUAGE BOARD

Er y croesawn eich barn a'ch sylwadau cyffredinol ar unrhyw ran o'r cyngor drafft rydym yn gwahodd ymatebion ar y materion canlynol yn arbennig:

Cwestiynau Ymgynghoriad

1. Pa rannau o'r ddogfen gredwch chi yw'r mwyaf defnyddiol i'ch sefydliad a pham?

2. Pa rannau o'r ddogfen gredwch chi yw'r lleiaf defnyddiol i'ch sefydliad a pham?

3. Ydi'r ddogfen yn cwrdd ag anghenion eich sefydliad o ran datblygu gweithlu dwyieithog?

4. Oes yna unrhyw beth arall y credwch y byddai'n ddefnyddiol i ni ei gynnwys yn y ddogfen?

5. Ar ba fformat y credwch y dylem gyhoeddi'r ddogfen?

Mae'r ddogfen gyngor i'w gweld yn llawn ar ein gwefan, www.byig-wlb.org.uk ac wedi ei atodi i'r e-bost hwn. Fe fyddwn yn ddiolchgar o dderbyn eich sylwadau erbyn **3 Rhagfyr 2009** i elen.gareth@byig-wlb.org.uk

Yr eiddoch yn gywir,

Meirion Prys Jones

Meirion Prys Jones
Prif Weithredwr

Amg/Enc. Recriwtio a'r Iaith Gymraeg / Recruitment and the Welsh Language

Bwrdd yr Iaith Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5/7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT
post@bwrdd-yr-iaith.org.uk
www.bwrdd-yr-iaith.org.uk

Welsh Language Board
Market Chambers
5/7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT
post@welsh-language-board.org.uk
www.welsh-language-board.org.uk

T +44 (0)29 2087 8000
Ff +44 (0)29 2087 8001
Cadeirydd_Chair **Meri Huws**
Prif Weithredwr_Chief Executive
Meirion Prys Jones
Swyddfeydd eraill_Other offices
Caernarfon, Caerfyrddin_Carmarthen

Noddir gan
Lywodraeth Cynulliad Cymru
Sponsored by
Welsh Assembly Government